# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Byron Owen | Adran Etholiadol: | Mynydd-bach |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Es i gymorthfeydd bob 3 wythnos yn Neuadd Gyhoeddus Treboeth a Chanolfan Gymunedol y Clâs.

Ymdriniais yn rheolaidd ag amrywiaeth o gwynion ac ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd megis problemau sbwriel, glanhau strydoedd, goryrru etc.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 9 | / | 12 | 75 | % |
| Cyngor | 12 | / | 15 | 80 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu | 15 | / | 15 | 100 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu | 3 | / | 3 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 47 | / | 53 | 89 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Cyn-gadeirydd diweddar Canolfan Gymunedol y Clâs a Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd y Clâs.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi trefnu clirio sbwriel o'r tu ôl i'r siopau yn y Clâs.

Rwyf wedi trefnu glanhau'r llethr o Sgwâr Brynhyfryd tuag at Benlan ac Ystâd Penfilia.

Gofynnodd preswylwyr Stryd Roger am osod dyfeisiau rheoli cyflymder - gwnaed hyn.

Trefnais i lanhau llwybr troed rhwng Heol Glasbury a Chlôs Waltham a llwybr troes rhwng Bryn Eglur a Gelli Fawr. Gosodwyd goleuadau newydd yno hefyd.

Adroddais am y broblem o geir yn mynd trwy'r golau'n anghywir wrth Sgwâr Brynhyfryd a Chaersalem.

Adroddais am y broblem a oedd yn pryderu preswylwyr Heol Glasbury, ynghylch y canfyddiad bod y ffordd yn debyg i faes parcio. Cafwyd problem hefyd wrth Heol Mynyddgarnllwyd, i lawr i Heol Trewyddfar – adroddwyd am hyn hefyd.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

14/10/2013 - Cyn-benderfynu
Mis Ionawr 2014 – Hyfforddiant Amddiffyn Plant

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwy'n ymweld â phreswylwyr yn eu cartrefi ac rwyf hefyd yn ymweld â'r cartrefi nyrsio yn ward Mynydd-bach lle rwy'n darllen cerddi rwyf wedi'u hysgrifennu i'r preswylwyr. Weithiau, rwy'n mynd â'm gitâr i ganu caneuon a gallant ymuno yn y canu hefyd.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 07.07.14 |